

Plant ac Ieuenctid

Darllen: Salm 27:11

Dychmygwch yr olygfa. Criw o ieuenctid wedi cyrraedd Llanberis. Cymysgfa go dda o fechgyn a merched uchel eu cloch. A dyma un o'r ardal yn gofyn i un ohonyn nhw, 'Beth ydych chi'n ei wneud yma?' A'r ateb, 'Dydw i ddim yn gwybod yn iawn, dim ond wedi dod am yr hwyl ydw i!' A dyma ofyn i un arall. 'Gobeithio cerdded i gopa'r Wyddfa,' meddai honno gan estyn map a dangos yn union y llwybr yr oedd hi am ei ddilyn i'r copa. Un heb lawer o syniad i ble roedd o'n mynd, a'r llall yn sicr o'r daith a'r nod.

Efallai eich bod chi yn debyg i'r naill neu'r llall o'r ddau yma. Mae bywydau pawb ohonoch o'ch blaenau yn llawn o bosibiliadau. Y cwestiwn pwysig yw – sut ydych chi'n edrych ar daith bywyd?

Efallai nad ydych ar hyn o bryd yn sicr o'r daith. Ddim wedi meddwl llawer gan fod cymaint o bethau'n mynd â'ch bryd heddiw. Mae yna gymaint o bethau i'w gwneud – mwynhau bywyd i'r eithaf, chwaraeon, gemau cyfrifiadurol, mynd allan, a chofiwch fod yna waith ysgol i'w wneud hefyd! Ond efallai eich bod yn sicr o'ch taith, yn gwybod yn iawn beth ydych am ei wneud weddill eich bywyd. Rwy'n tybio mai perthyn i'r criw cyntaf y mae'r mwyafrif ohonoch; hynny yw, ddim yn hollol sicr o'r daith.

Ond i ba bynnag grŵp rydych yn perthyn, mae yna rai pethau i'w hystyried. Meddyliwch amdanoch yn mynd ar daith mewn car; mae'n rhaid i chi wybod beth yw pen draw'r daith cyn cychwyn, neu mi fyddwch yn debyg i'r gyrwyr hynny sy'n stopio wrth bob croesffordd i geisio penderfynu pa ffordd i fynd. Cofiwch y gall hyn fod yn rhwystredig iawn i yrwyr eraill sydd ar y ffordd. Mae yna bobl felly, sy'n mynd o un digwyddiad i'r llall, o un profiad i'r llall. Does dim yn gydgyssylltiedig.

Ac mae'n rhaid gwybod y ffordd. Map, cwnpawd neu'r dyddiau hyn, *Sat-nav* – ond mae'r rhain yn gallu mynd â ni ar ddisberod yn aml iawn! Dydi map ddim yn dweud y cyfan wrthyn ni. Dydi'r map yn sôn dim am y tywydd a chyflwr y ffyrdd. Yr unig beth mae'r map yn ei roi i ni ydi synnwyr o gyfeiriad.

Cofiwch hefyd fod cyfarpar ar gyfer y daith yn bwysig, yn enwedig mewn cyfnodau oer a gwlyb. Paratowch yn ofalus rhag ofn i rywbeth ddigwydd i'r car a chithau ymhell o bob man.

Yn Llyfr Genesis, mae hanes am Abram yn cychwyn ar daith. Dyma hanes am un a gychwynnodd ar daith; taith i'r anwybod oedd hon. Mae Abram yn batrwm i ni i gyd. Roedd yn sicr o ben draw'r daith am ei fod yn gwybod fod Duw yn ei arwain. Roedd hon yn daith arloesol, yn daith fentrus, yn daith anturus – y math o daith sy'n creu cymeriadau cryf, sydd ben ac ysgwydd yn uwch na'r rhai sy'n ofni mentro i'r anwybod. Mentraf ddweud bod Iesu Grist yn cynnig taith felly i ni. Nid taith hawdd, ond taith fydd yn ein herio a'n gwneud yn bobl gryf a gwydn. Mentrwch arni.

Myfyrdod pellach:

Trafodwch ymhlith eich gilydd beth ydi gofynion taith y Cristion.

Sut fyddech chi'n gweld rôl y Beibl yn y daith hon?